




amgueddfa lechi cymru
national slate museum

# LLYFRYN FRON HAUL













Darganfyddwch mwy am y tai chwarelwyr

amgueddfa cymru
national museum wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government







# Croeso i lyfryn Fron Haul!

**Defnyddiwch y llyfryn hwn i ddarganfod mwy am y tai diddorol yma. Cychwynnwch drwy edrych yn fanwl ar y tai o'r tu allan, yna ewch i dŷ 1861 i gychwyn ar eich taith trwy amser.**




**Dyma i chi ychydig o stori rhif 1-4 Fron Haul...**

Wyddoch chi mai nid dyma gartref go iawn y tai bychain hyn? Yn Nhanygrisiau ger Blaenau Ffestiniog oedd y tai yn wreiddiol. Erbyn 1997, roedd y tai mewn dipyn o stad ac ar fin cael eu dymchwel. Ond, am eu bod nhw mor arbennig ac wedi eu hadeiladu ar gyfer chwarelwyr a'u teuluoedd, penderfynwyd eu symud nhw garreg wrth garreg i fan hyn, Amgueddfa Lechi Cymru, i ddangos sut y byddai chwarelwyr yn byw ers talwm.

Am waith! Roedd rhaid rhoi rhif ar bob carreg, pob llechen, pob ffenest, pob drws - pob un dim - er mwyn gallu eu symud a'u hail godi fel rhyw jig-so anferth yma yn Llanberis.

Wrth fynd i bob tŷ, rydych yn camu i fewn i oes wahanol ac i le gwahanol. Llenwch y tabl i gymharu'r tai a rhowch ychydig o wybodaeth am eich tŷ chi hefyd.



**Sylwoch chi bod 5 simna a dim ond 4 lle tân? Pam?**
**Er mwyn gwneud i'r rhes edrych yn ddelach drwy fod yn hafal!**



Sylwch ar y llechi'n sticio allan o bob simna – mae'r rhain yn cadw dŵr glaw oddi wrth cerrig y simna. A ma hi'n bwrw glaw'n aml yn Mlaenau Ffestiniog meddan nhw!

## Cymharwch tai Fron Haul gyda'ch tŷ chi.

| | Eich tŷ chi? | Tŷ 1861 | Tŷ 1901 | Tŷ 1969 |
|---|---|---|---|---|
| Lleoliad? | | | | Llanberis |
| Sawl ffenest? | | | | |
| Sawl llofft? | | | | |
| Sawl ystafell ymolchi? | | | | |
| Sawl llawr? | | | | |
| Oes toilet tu mewn? | | ✗ | | |
| Gardd? | | | | ✓ |

## Tynnwch lun eich tŷ chi.

# Tŷ 1861 – BWYD

Pa fwydydd welwch chi yn y tŷ yma?

Allwch chi feddwl am fwydydd eraill y byddai'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn ei fwyta?




Pwy fyddai'n paratoi bwyd yma?

Pwy sy'n paratoi bwyd yn eich tŷ chi gan amlaf?




Ydych chi'n meddwl fod y bwyd yma yn iach ac yn faethlon? Pam?


Sut fath o fwyd fyddwch chi'n ei gael?



**Tynnwch lun eich hoff fwyd chi ar y plât.**



**Fedrwch chi ddyfalu pam bod rhaid i'r amgueddfa ddefnyddio bwyd plastig ym mhob un o'r tai?**



Er ella eich bod chi'n meddwl bod na olwg ddigon tlawd yn y tŷ yma, mae digon o fwyd ar y bwrdd ac mae dyn y tŷ yn cael digon o waith fel chwarelwr. Cofiwch, 'doedd dim gymaint o bethau ar gael i lenwi tŷ yn 1861, fel sydd heddiw.

Sut a lle fyddai rhywun yn coginio bwyd yn y tŷ hwn?



**Mae wir angen tân yma – mae cymaint yn dibynnu ar dân da. Rhaid cael tân er mwyn cael gwres, dŵr cynnes a bwyd poeth!**

**Paned plîs!**




Mae'n debyg bod gwneud paned yn eich tŷ chi yn broses weddol hawdd?

Tua faint o funudau mae'n gymryd?

Beth am wneud paned yn y tŷ hwn?

Rhowch dic neu groes i ddangos be' sy'n digwydd ym mha dŷ. ✓ ✗

| | Tŷ 1861 | Tŷ chi |
|---|---|---|
| **Rhoi plwg y tegell i fewn yn y soced** | | |
| **Nôl dŵr o'r ffynnon** | | |
| **Gwneud tân** | | |
| **Nôl dŵr o'r tap** | | |
| **Rhoi te yn y tebot neu'r gwpan** | | |
| **Disgwyl i'r dŵr ferwi** | | |
| **Rhoi swits y tegell ymlaen** | | |
| **Tywallt y dŵr berw ar y te a gadael iddo sefyll** | | |



**Cofiwch mai dail te, nid bagiau te fyddai ganddyn nhw ers talwm.**

# Tŷ 1901 – STREIC

Roedd 1901 yn amser anodd iawn ym Methesda.


Aeth y rhan fwyaf o'r dynion oedd yn gweithio yn Chwarel Penrhyn – 2,800 ohonyn nhw - ar streic, yn anhapus efo'r ffordd yr oeddent yn cael eu trin gan berchennog y chwarel, Yr Arglwydd Penrhyn.

Yn ystod streic, nid oes unrhyw gyflog yn cael ei dalu i'r gweithwyr. Cofiwch, fyddai gwraig y tŷ ddim yn cael cyflog chwaith – ella y gallai wneud ceiniog neu ddwy yn gwnïo, neu'n golchi dillad i deuluoedd oedd â mwy o arian na hwy.




Welwch chi fwyd o gwbl yn y tŷ hwn?

Byddai'r dorth sydd ar y bwrdd yn gorfod bwydo teulu cyfan am sawl diwrnod, hyd at wythnos, pan oedd pethau ar eu gwaethaf. Faint fyddai'r dorth hon yn para yn eich tŷ chi?



**Rhowch eich llaw ar y llawr – ydy'r llechi'n gynnes? Er mwyn cadw'r tŷ a phob dim sydd ynddo rhag tamprwydd, mae gwres o dan y llawr i'w gael yma. Ateb modern i hen broblem!**



Parhaodd y streic am dair mlynedd, yn hirach nag unrhyw streic arall yn hanes Prydain, tan yn ddiweddar iawn.

Beth ydy **bradwr** yn eich barn chi?

Erbyn 1901, roedd y streic wedi bod yn mynd yn ei flaen ers rhai misoedd a nifer o deuluoedd Bethesda yn ei chael hi'n anoddach bob dydd i gael dau pen llinyn ynghyd. Fesul dipyn, aeth rhai o'r dynion yn ôl i'r gwaith, gan dorri'r streic. Yn nhŷb y chwarelwyr oedd dal adra', roedd y dynion hyn wedi eu bradychu. Trefnwyd i bawb oedd dal ar streic i gael arwydd i'w roi yn ffenest y tŷ i ddangos yn glir ar ochr pwy oedden nhw.






Byddai gwragedd a phlant y dynion oedd ar streic yn hel at ei gilydd ar Bont Tŵr, reit wrth ymyl mynedfa'r chwarel, i godi cywilydd ar y dynion hynny oedd yn torri'r streic drwy fynd i'r gwaith. Byddent yn gweiddi arnynt, yn taro sosbenni efo llwyau i wneud twrw mawr, neu mi fyddent yn chwythu i gragen fel yr un welwch chi ar y silff ffenest i greu sŵn hwtian hyll.

**Ewch i fyny'r grisiau.** Welwch chi gês dillad ar lawr y llofft?



Pwy sy'n gadael da chi'n meddwl?

I lle maen nhw'n mynd?

Pam?

Holwch un o'r staff i gael gwybod mwy!

# Tŷ 1969 – NEWID BYD



Beth ydy'r peth cyntaf da chi'n sylwi arno yn nhŷ 1969?


**Mae cymaint o newidiau yma!**
Mae mwy o ddefnyddiau meddal – carped, soffa, llenni…
Mae mwy o declynnau i wneud bywyd yn haws - tân trydan, peiriant cynhesu dŵr, stôf
Mae mwy o bethau i'w gwneud gyda'r nos – gwrando ar radio, chwarae recordiau, gwylio'r teledu…
**Mae nifer o'r rhain yn dibynnu ar un peth – TRYDAN.**




## Faint o bethau fedrwch chi eu darganfod yn y chwilair sy'n dibynnu ar drydan yn y tŷ hwn?

1. Peiriant golchi
2. Haearn smwddio
3. Lamp
4. Gwresogydd dŵr
5. Teledu
6. Sychwr gwallt
7. Stôf
8. Radiogram
9. Golau
10. Chwaraewr recordiau
11. Tân trydan

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | FF | P | R | D | M | T | G | H | R | F | Y | U | I | C | D |
| R | K | D | P | E | I | R | I | A | N | T | G | O | L | CH | I |
| Y | L | F | W | A | S | T | L | E | CH | C | O | P | S | W | F |
| U | A | J | N | M | D | C | S | A | G | W | G | O | L | A | U |
| E | M | V | B | E | O | S | K | R | J | H | T | R | R | R | W |
| B | P | E | J | M | W | Y | Y | N | N | F | T | FF | E | A | M |
| O | U | Y | R | X | R | CH | O | S | E | R | A | S | R | E | K |
| E | T | Y | I | O | P | W | L | M | LL | M | N | C | D | W | FF |
| S | K | G | T | R | Y | R | I | W | Y | O | T | P | Y | R | E |
| G | W | R | E | S | O | G | Y | DD | D | W | R | I | P | R | L |
| G | T | E | L | D | W | W | P | I | M | U | Y | H | G | E | K |
| Q | W | S | E | R | T | A | I | O | E | T | D | R | CH | C | D |
| X | T | H | D | G | L | LL | K | F | E | R | A | V | C | O | T |
| L | S | I | U | P | O | T | Y | S | D | G | N | H | F | R | U |
| M | T | E | W | C | F | H | U | M | L | Q | A | U | N | D | M |
| A | O | E | O | Y | B | N | X | M | W | Y | L | D | J | I | N |
| C | F | T | Y | U | N | T | R | A | D | I | O | G | R | A | M |
| F | R | Q | C | D | G | F | L | I | T | C | V | N | Y | U | LL |



**Mae gwaith y Curadur ychydig yn haws wrth chwilio am bethau i'r tŷ hwn am fod cymaint o bobl sy'n cofio 1969 dal yn fyw. Mae'n rhaid hyd yn oed gwrthod pethau sy'n cael eu cynnig weithiau, am fod gan yr amgueddfa ddigon ohonynt yn barod.**




## Beth am i chi greu chwilair eich hun gydag enwau'r pethau sy'n dibynnu ar drydan yn eich tŷ chi?



Tydy bywyd ddim yn fêl i gyd yn y tŷ hwn chwaith – mae Chwarel Dinorwig newydd gau yn Awst 1969 ac mae dyn y tŷ yn ddi-waith. Mae gwraig y tŷ yn mynd allan i weithio erbyn hyn. Sut oedd hyn efallai yn effeithio ar fywyd y cartref?

Pa newidiadau eraill fu yn y 60au?








Ym mis Gorffennaf 1969, arwisgwyd y Tywysog Siarl yn Dywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon ar lwyfan o lechfaen Dinorwig. Mis yn ddiweddarach caewyd chwarel Dinorwig gan roi 350 o ddynion allan o waith.

# LLUNIAU O BOB LLIW A LLUN



Oes ganddoch chi lawer o luniau ar waliau eich tŷ chi?

Be' am eich 'stafell wely? Oes ganddoch chi boster o rywun enwog ar y wal? Pwy? Pam?

- am eu bod nhw'n dalentog?
- am eich bod chi'n edmygu nhw?
- am eu bod nhw'n enwog?
- am eu bod nhw'n ddel?

**Tynnwch lun o boster neu lun sydd ar wal yn eich tŷ chi.**


Roedd Y Parch. Henry Rees yn bregethwr enwog iawn yn ei ddydd. Roedd o'n teithio hyd a lled Cymru yn pregethu i gynulleidfaoedd mawr o bobl (roedd yn dipyn o 'seleb'!)

Roedd y teulu oedd yn byw yn y tŷ hwn yn amlwg yn edmygu Henry Rees, neu am ddangos pa mor grefyddol oedden nhw. Oes unrhyw arwydd arall yn y tŷ eu bod nhw'n grefyddol?



Beth am tŷ 1969? Oes na luniau crefyddol yn y tŷ hwn?





**Tua faint oed oedd y person oedd yn cysgu yn y llofft gefn yn nhŷ 1969... be da chi'n meddwl? Pam?**



Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'r tai yn llenwi gyda bob math o bethau, ond yn gwagio o ran pobl! Mae Cyfrifiad 1871 yn dangos bod hyd at 7 o bobl yn byw yn un o dai Fron Haul. Erbyn 1969, roedd yn gyffredin i deuluoedd fod llawer yn llai.

**Edrychwch o'ch cwmpas yn ofalus yn y tai.**

Welwch chi rai o'r deunyddiau hyn? Ym mha dŷ welwch chi'r deunyddiau yma? Ym mha ystafell? Beth ydy'r eitem?




| Patrwm | Pa dŷ? | Pa ystafell? | Beth ydy o? |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |
| 5 | | | |
| 6 | | | |
| 7 | | | |
| 8 | | | |

## Dyma le i chi wneud nodiadau neu dynnu lluniau o bethau fu o ddiddordeb i chi heddiw

**Fy enw i ydy:**

**Dyddiad fy ymweliad:**

**Pwy ddaeth gyda mi:**

**Beth wnes i fwynhau orau:**

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gyda chymorth ariannol gan gwmni adeiladu Watkin Jones

**Mae gan yr amgueddfa raglan o weithgareddau drwy'r flwyddyn.**
**Am fwy o wybodaeth ewch i'r safle we: www.amgueddfacymru.ac.uk**

**Amgueddfa Lechi Cymru, Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd. LL55 4TY**
**☎ 01286 870630 | llechi@amgueddfacymru.ac.uk | www.amgueddfacymru.ac.uk**